

# **CYMWYSTERAU CYMRU**

## **Dogfen Fframwaith**

## **Trosolwg**

Lluniwyd y ddogfen fframwaith hon gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn ymgynghoriad â Bwrdd Cysgodol Cymwysterau Cymru. Mae'n nodi'r fframwaith eang y mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu o'i fewn ac yn nodi'r telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu dilyn wrth ddarparu cymorth grant er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i berfformio'i ddyletswyddau statudol.

## **Camau i'w cymryd**

Nid oes dim camau pellach yn ofynnol.

## **Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Bethan Cradock

Uned Noddi Cymwysterau Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 823708

e-bost: [QualificationsWalesSponsorshipUnit@cymru.gsi.gov.uk](mailto:QualificationsWalesSponsorshipUnit@cymru.gsi.gov.uk)

## **Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/qualificationsinwales/?skip=1&lang=cy>

## **Dogfennau cysylltiedig**


Cymwysterau Cymru Llythyr y dyraniad grant ar gyfer 2015-16

## Dogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru

Lluniwyd y ddogfen fframwaith hon gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn ymgynghoriad â Bwrdd Cysgodol Cymwysterau Cymru. Mae'n nodi'r fframwaith eang y mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu o'i fewn ac yn nodi'r telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu dilyn wrth ddarparu cymorth grant er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i berfformio'i ddyletswyddau statudol.

Darperir trosolwg cynhwysfawr o drefniadau rheoli arian cyhoeddus Cymru gan ['Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'](#). Bydd Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen fframwaith hon ar y cyd o bryd i'w gilydd, ond dim amlach nag unwaith bob pum mlynedd. Cynigir y dylai'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal cyn pen dwy flynedd o gyfnod prawf, yn unol â phob Corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB).

Cymeradwywyd telerau'r ddogfen fframwaith hon gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar **DATE**, a chytunwyd arnynt gan:


Llofnod ..... 

Enw Jo-Anne Daniels

Teitl Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth y Grŵp Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr (ICQLS), Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad .....06 August 2015..

A

Llofnod .....  .....

Enw Ann Evans

Teitl Cadeirydd, Cymwysterau Cymru

Dyddiad ...06 August 2015.....

## CYNNWYS

*tud*

### **6 Pennod 1 – Cyflwyniad**

- 6 Pwerau a dyletswyddau cyfreithiol Cymwysterau Cymru
- 7 Pwerau Gweinidogion Cymru
- 9 Partïon a Chysylltiadau
- 9 *Cysylltiadau rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru*
- 9 *Cysylltiadau rhwng Cymwysterau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru*

### **12 Pennod 2 – Llywodraethu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd**

- 12 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 13 Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- 13 Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru
- 14 Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru
- 14 Uned Noddi Cymwysterau Cymru
- 16 Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru
- 16 *Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r Bwrdd*
- 17 *Rôl y Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfuno*
- 17 *Rôl y Prif Swyddog Gweithredol fel y Prif Swyddog mewn Achosion Ombwdsmon*
- 17 *Atebolrwydd i'r adran noddi*
- 17 *Atebolrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*
- 18 Bwrdd Cymwysterau Cymru
- 18 *Cydggyfrifoldebau*
- 20 *Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru*
- 21 *Cyfrifoldebau personol aelodau unigol o'r Bwrdd*
- 21 Adrodd Blynyddol

### **22 Pennod 3 – Trefniadau rheoli**

- 22 Staff Cymwysterau Cymru
- 22 *Recriwtio, cadw a rheoli staff*
- 22 *Cyflog / Telerau ac Amodau gwasanaeth/cyflogaeth*

- 22 Cylch cyflog
- 23 *Buddion staff a gwobrwyon di-dâl*
- 23 *Pensiynau a'r Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE)*
- 23 *Diswyddo, taliad diswyddo ac iawndal*
- 24 Trefniadau cynllunio
- 24 *Cynllunio cyllideb*
- 24 *Llythyr Dyrannu Grant*
- 24 Rheoli Risg
- 24 Monitro economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

## **25 Pennod 4 – Trefniadau cyfrifyddu ac archwilio ariannol**

- 25 Cyfrifoldebau ariannol Cymwysterau Cymru
- 25 *Adrodd cyffredinol*
- 25 *Adrodd eithriadau*
- 26 *Cyfrifon statudol*
- 26 Incwm
- 26 *Arian cyhoeddus*
- 26 *Incwm o ffynonellau'r Trysorlys (Cymorth Grant)*
- 26 *Incwm na ddaw o ffynonellau'r Trysorlys*
- 27 *Arian preifat*
- 27 *Ffioedd a thaliadau*
- 27 Gwariant
- 28 *Benthyciadau, gwarantau a buddsoddiadau*
- 28 *Grantiau a benthycia*
- 29 Rheoli arian parod
- 29 *Balansau arian parod cymorth grant mewn blwyddyn*
- 29 *Balansau arian parod cymorth grant diwedd blwyddyn*
- 29 *Rheoli derbynebaw*
- 29 *Trosglwyddiad*
- 30 *Llog a enillir ar falansau arian parod a banc*
- 30 Trefniadau archwilio ac adrodd dilynol
- 30 *Pwyllgor archwilio a sicrhau risg*
- 30 *Archwiliad mewnol*
- 31 *Archwilio allanol*
- 31 Hawl mynediad adran noddi
- 31 Is-gwmnïau a chyd-fentrau
  
- 33 **Atodiad 1 – Egwyddorion Llywodraethu**
  
- 35 **Atodiad 2 – Hanfodion Nawdd Effeithiol**
  
- 38 **Atodiad 3 – Rhestr o ganllawiau a chyfarwyddiadau corfforaethol y Llywodraeth gyfan ar gyfer Cymwysterau Cymru**
  
- 41 **Atodiad 4 – Crynodeb o ofynion cymeradwyo a chyfyngiadau dirprwyo**



# 1 CYFLWYNIAD

## **Pwerau a dyletswyddau cyfreithiol Cymwysterau Cymru**

1. Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#) i archwilio'r materion a oedd yn effeithio ar system gymwysterau Cymru. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad fod angen i Gymru gymryd mwy o berchenogaeth o'r cymwysterau a gynigir yng Nghymru a darparu system gymwysterau i ddysgwyr a chyflogwyr o Gymru a allai gael ei chynllunio'n hyderus ac yn ddibynadwy i ddiwallu eu hanghenion. Argymhellwyd y dylai Cymru gael awdurdod cymwysterau annibynnol, hyd braich i ffwrdd o'r llywodraeth.
2. Sefydlwyd Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr annibynnol dros Gymru gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Nodir prif amcanion a swyddogaethau statudol y mudiad yn Neddf Cymwysterau Cymru. Dyma'r prif amcanion:
  - sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn llwyddo'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; ac
  - ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.
3. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi cyfres o faterion allweddol sy'n rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried wrth fynd i'r afael â'i brif amcanion ac mae'n rhoi amrywiaeth o swyddogaethau i Gymwysterau Cymru o ran y system gymwysterau - gan gynnwys y pwerau i reoleiddio cyrff dyfarnu, i osod meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau, i gyfyngu ar gymwysterau a'u comisiynu lle y myn ac i gymeradwyo a monitro cymwysterau a gyflwynir yng Nghymru gan gyrrff dyfarnu cydnabyddedig.
4. O dan Ddeddf Addysg 2002, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gwricwlwm ysgolion (gan gynnwys pedagogeg ac asesu) ac mae Deddfau eraill yn rhoi cyfrifoldebau pellach iddynt dros bolisi addysg a sgiliau Cymru – cyfrifoldebau sy'n ymwneud, er enghraifft, â strwythur ac ariannu'r system addysg a chymwysterau, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, Cymwysterau Cymru ei hun a dysgu yn y gweithle. Yn hyn o beth, mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol yn gyffredinol am bolisi cymwysterau Cymru. Serch hyn, rhaid iddynt ddibynnu ar y cyngor a'r arbenigedd a ddarperir gan Gymwysterau Cymru, yr awdurdod arbenigol ar gymwysterau yng Nghymru.
5. Creodd Gweinidogion Cymru Gymwysterau Cymru er mwyn cryfhau a symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae gan Gymwysterau Cymru annibyniaeth dros weithredu a rheoli, felly bydd yn gwneud penderfyniadau rheoli a pholisi sy'n ymwneud â'i brif amcanion ac sy'n unol â'i swyddogaethau statudol. Er enghraifft, bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud ei benderfyniadau ei hun o ran gosod safonau a meini prawf penodol (ac amodau) ar gyfer cydnabod a chymeradwyo. Gall y meini prawf a'r amodau hyn ymwneud â chynnwys y cymwysterau yn ogystal â'u dulliau asesu. Nid

oes gan Weinidogion Cymru unrhyw gyfrifoldebau o ran y mwyafrif o'r penderfyniadau gweithredol a rheoleiddio a wneir gan Gymwysterau Cymru (ond nodir eithriadau i hyn yn y Ddeddf ac mae crynodeb o'r rhain isod). Cymwysterau Cymru yw'r arbenigwr awdurdodol ar gymwysterau yng Nghymru, yn gweithredu ac yn rheoleiddio'n annibynnol ar Weinidogion.

6. Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi Cymwysterau Cymru i weithredu hyd braich i ffwrdd o Lywodraeth Cymru, gan adrodd i Lywodraeth Cymru ynghylch ei berfformiad ariannol, ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch ei gyfrifoldebau statudol.
7. Fodd bynnag, gan fod cymwysterau a'r cwricwlwm yn ddibynnol ar ei gilydd, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio i lunio'r system gymwysterau genedlaethol dros Gymru. Un o'r ffyrdd y caiff hyn ei gyfleu yn Neddf Cymwysterau Cymru yw trwy'r gofyniad i'r ddau barti (Gweinidogion Cymru a Chymwysterau Cymru) gyd-gyhoeddi'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol. Dyma sut y mae Cymwysterau Cymru yn pennu pa gymwysterau neu fathau o gymwysterau y bydd yn canolbwyntio arnynt yn ystod ei broses gymeradwyo ar unrhyw adeg<sup>1</sup>. Bydd angen i Gymwysterau Cymru weithio gyda Gweinidogion Cymru i flaenoriaethau'r cymwysterau a gymeradwyir o ran eu pwysigrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr<sup>2</sup>. Yn y modd hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â'r rôl o bennu'r cymwysterau blaenoriaethol yng Nghymru ar lefel strategol, gan wahanu'r penderfyniad rheoleiddio o'r llywodraeth.
8. Yn ogystal â hyn, gan y bydd angen i rai cymwysterau bob amser gyd-fynd â'r hyn a ddysgir mewn ysgolion (a'u pennu yn ôl y cwricwlwm), bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio'n agos ar ba bryd y bydd newidiadau i gymwysterau'n cael eu cyflwyno mewn ymateb i newidiadau yn y cwricwlwm. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymwysterau sy'n fwy perthnasol ac ymatebol i anghenion Cymru. Bydd angen i Gymwysterau Cymru fod yn ymwybodol o amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar bob adeg a gallent orfod talu sylw i bolisi Llywodraeth Cymru, yn unol ag adran 53 o'r Ddeddf.

### **Pwerau Gweinidogion Cymru**

9. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau cyffredinol a ddisgrifiwyd uchod, mae gan Weinidogion Cymru nifer o ddyletswyddau a phwerau penodol mewn perthynas â Chymwysterau Cymru. Dyma'r pedwar pwysicaf:

#### **i) Dyletswydd i baratoi'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ar y cyd (gyda Chymwysterau Cymru) (adran 13).**

---

<sup>1</sup> Disgwylir i'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol gynnwys cymwysterau ar gamau amrywiol o ddatblygiad a chymeradwyaeth.

<sup>2</sup> Bydd y protocol ar gyfer datblygu a llunio'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol yn cael ei gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru.



Bydd y rhestr yn nodi'r cymwysterau y bydd Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio arnynt i'w cymeradwyo. Felly, mae cyfle i Weinidogion sicrhau bod yr hyn a wnaiff Cymwysterau Cymru o ran cymeradwyo cymwysterau'n cyd-fynd â'r hyn sydd angen ei newid, er enghraifft, y cwricwlwm sydd ar waith mewn ysgolion.

**ii) Pŵer i nodi gofynion sylfaenol cymwysterau trwy reoliadau (adran 21) (mae'r rhain yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol).**

Diben y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion i fynnu bod rhai agweddau ar wybodaeth, sgiliau neu ddealltwriaeth yn cael eu harddangos ar gyfer cymwysterau penodol. Pŵer rhagofalus yw hwn, ac ni ragwelir y bydd yn cael ei ddefnyddio'n aml. Gellir ond pennu'r rheoliadau os yw'r Gweinidogion wedi eu bodloni eu bod yn angenrheidiol "er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a ddilynir gan unigolion sy'n ymgymryd â chwrs sy'n arwain at gymhwyster yn briodol at anghenion rhesymol yr unigolion hynny". Rhaid i Weinidogion ymgynghori â Chymwysterau Cymru ac unigolion priodol eraill cyn gwneud rheoliadau o'r fath. Pan fydd rheoliadau wedi'u gwneud, efallai na fydd Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo cymwysterau o'r fath a nodwyd os nad dynt yn bodloni'r gofynion sylfaenol.

**iii) Pŵer i ofyn i Gymwysterau Cymru (adran 53), trwy gyfarwyddyd cyhoeddedig, i ystyried agweddau ar bolisi llywodraethol (a materion eraill o'r fath).**

Mae hwn yn bŵer eang a allai ymwneud ag unrhyw agwedd ar bolisi llywodraethol (sy'n debygol o fod, ond nid o reidwydd, ym maes addysg a sgiliau). Nid oes rhaid i Gymwysterau Cymru weithredu polisi llywodraethol, ond mae ganddo ddyletswydd i'w ystyried os gofynnir iddo wneud hynny. Os bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud unrhyw beth sy'n groes i bolisi llywodraethol wedi iddo gael cyfarwyddyd i'w ystyried, bydd angen iddo fod yn barod i gyfiawnhau'r rhesymau dros wneud hyn yn y llysoedd a/neu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n bwysig nodi yma nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau mewn cysylltiad ag adran 53 o ran penderfyniadau rheoleiddio a wneir gan Gymwysterau Cymru.

**iv) Pŵer i eithrio cwrs a ariennir yn gyhoeddus sy'n arwain at gymhwyster, i ddysgwyr hyd at 19 oed, rhag gorfod defnyddio cymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd gan Gymwysterau Cymru.**

Mae hwn yn caniatáu i Weinidogion ddefnyddio'u doethineb i benderfynu a ddylid gadael i gymwysterau 'eraill' gael eu defnyddio ar gyrsiau penodol neu beidio - yn gyffredinol neu yn ôl y gofyn. Mae'n bŵer rhagofalus.

Nid oes gan Gymwysterau Cymru unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau o ran dyrannu arian i gyrsiau.

Pan fydd Gweinidogion yn gweithredu'r pwerau hyn, byddant yn gofyn am gyngor Cymwysterau Cymru cyn pennu a ddylai cymhwyster a ariennir yn gyhoeddus gael ei eithrio rhag cael ei gymeradwyo neu ei ddyndodi.

10. Dyma rai agweddau eraill ar bolisiau sy'n ymwneud â chymwysterau sy'n parhau i fod dan gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru:

**Y gallu i bennu pa gyrsiau i'w hariannu.** Er y bydd cyrsiau i ddysgwyr dan 19 oed, sy'n arwain at gymwysterau cymeradwy a dynodedig, yn *gymwys* i gael eu hariannu'n gyhoeddus, gall Gweinidogion gadw'r hawl i ddefnyddio'u doethineb i bennu a ddylid ariannu cyrsiau o'r fath neu beidio.

Nid oes gan Gymwysterau Cymru unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau o ran dyrannu arian i gyrsiau.

**Y gallu i bennu defnyddio cymwysterau i fesur unrhyw beth heblaw perfformiad y dysgwr.**

**Y gallu i gasglu ac adolygu ystadegau ar gyraeddiadau dysgwyr yng Nghymru o ran cymwysterau.**

### **Partïon a chysylltiadau**

#### **Cysylltiadau rhwng Cymwysterau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru**

11. Bydd Cymwysterau Cymru yn adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd, ar ran pobl Cymru, yn sicrhau ei fod yn atebol am ei weithgarwch gweithredol a strategol, a'i fod yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio.
12. Yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaeth ar ei adroddiad blynyddol, gallai fod yna ofyniad ar Gymwysterau Cymru i ddarparu arbenigedd a chyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu un o'i Bwyllgorau neu un o'i fentrau cysylltiedig. Mae gan Gymwysterau Cymru'r hawl i fynd at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn annibynnol i roi cyngor iddo ar ei swyddogaethau statudol.
13. Gweler y rolau a'r cyfrifoldebau yn y cysylltiad rhwng Cymwysterau Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mhennod 2 y ddogfen hon.

#### **Cysylltiadau rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru**

14. Dyma'r partïon sy'n ymwneud â'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru:
  - Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
  - Cadeirydd a Bwrdd Cymwysterau Cymru

- Swyddogion Cymwysterau Cymru
  - Gweision Sifil yn Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
15. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd ati i wneud ei waith nawdd ar ran y Gweinidog Addysg a Sgiliau.
  16. Dylai'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch rhwng y naill a'r llall, gyda ffordd gymesuroi a chytûn o fynd i'r afael â risg ariannol.
  17. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod swyddogaethau nawdd yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr egwyddorion llywodraethu yn Atodiad 2.
  18. Mae Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gyfathrebu â'i gilydd, yn gyhoeddus ac yn breifat, mewn modd cyson, parchus a cholegol. Bydd pob parti'n ymdrechu i gyfathrebu'n effeithiol, i fod mor agored â phosibl, i rannu gwybodaeth ac i reoli materion cynhennus trwy drafodaethau cydweithredol.
  19. Dylai'r ddwy ochr gyfathrebu dan yr egwyddor 'dim byd annisgwyl', hynny yw, dylai fod yn agored, yn onest, yn adeiladol ac yn gyson. Dylid cytuno ar brotocolau cyfathrebu a dylai'r rhain gynnwys mewnbwn nifer o uwch swyddogion er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol da a dangos ymrwymiad i'r berthynas. Dylid cael strwythur clir ar gyfer cyfathrebu ffurfiol (yn arbennig o ran data sydd o fudd i'r ddwy ochr), adrodd ffurfiol (gan gynnwys digwyddiadau adroddadwy) a threfniadau monitro, ac ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth i'r ddau barti.
  20. Gweler y rolau a'r disgwyliadau clir i Weinidogion Cymru, Cadeiryddion, Byrddau, Swyddogion Cyfrifyddu, yr Uned Noddi a'r Archwilwyr ym Mhennod 2 o'r ddogfen fframwaith hon. Dylai pob parti fod â gwybodaeth dda o'r rhain.
  21. Prif bwynt mynediad Cymwysterau Cymru i Lywodraeth Cymru fydd Uned Noddi Cymwysterau Cymru, ond gallai swyddogion eraill o Lywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru a Chymwysterau Cymru hefyd gyfathrebu'n uniongyrchol â'i gilydd.
  22. Fel arfer, bydd cyfathrebu uniongyrchol rhwng Bwrdd Cymwysterau Cymru a'r Gweinidog yn cael ei wneud trwy'r Cadeirydd neu'r Prif Swyddog Gweithredol.
  23. Dylai'r rôl noddi ganolbwyntio ar gyfrifyddu gwariant arian cyhoeddus, fel y disgrifir yn Llythyr Dyrannu Grant Cymwysterau Cymru, a rheoli'r berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru. Nodir y disgwyliadau ar gyfer rôl Uned Noddi Cymwysterau Cymru yn Atodiad 2 o'r ddogfen fframwaith hon.

24. Bydd Cymwysterau Cymru yn ffynhonnell o gyngor awdurdodol i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru ar bolisiau cymwysterau.
25. Mae angen dealltwriaeth glir o'r cysylltiadau a'r cyfathrebiadau o ran y rolau a'r goblygiadau sy'n ymwneud â chywirdeb ariannol y mudiad. Nodir y rhain ym Mhennod 3 o'r ddogfen fframwaith hon.
26. Bydd angen i staff Cymwysterau Cymru gael cysylltiadau gwaith agored a chydweithredol gyda gweision sifil Llywodraeth Cymru, yn arbennig mewn perthynas â materion ariannol, y cwricwlwm, cyfathrebiadau, yr iaith Gymraeg, sgiliau, twyll a chamymddygiad; ac â grwpiau eraill o Lywodraeth Cymru.
27. Mewn rhai meysydd, bydd yr Uned Noddi yn arwain y gwaith o ddatblygu arferion cytûn (er enghraifft, cyfarfodydd chwarterol), protocolau neu drefniadau rhannu sydd angen cael eu rhoi ar waith yn fwy ffurfiol mewn cysylltiad â materion neu weithdrefnau arbenigol, er mwyn darparu ffordd glir o symud ymlaen. Dyma rai enghreifftiau:
- Cytundeb rhannu data;
  - Protocol cyfathrebu a chynghori sy'n berthnasol i sefyllfaoedd amrywiol;
  - Protocol ar gyfer rheoli cwynion ac amheuon o dwyll neu gamymddygiad;  
a
  - Rheoli digwyddiadau adroddadwy.

## 2 LLYWODRAETHU, CYFRIFOLDEB AC ATEBOLRWYDD

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28. Bob blwyddyn ar ôl 31 Awst, bydd Cymwysterau Cymru yn paratoi adroddiad o'i weithgareddau er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd farnu pa mor llwyddiannus y mae wedi bod o ran cyflawni ei brif amcanion. Caiff Cymwysterau Cymru benderfynu ar union fformat yr adroddiad blynyddol cyhoeddedig, ond rhaid cynnwys o leiaf y canlynol, fel y nodwyd yn Atodlen 1, paragraff 28 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015:
- Sut mae Cymwysterau Cymru wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod (gan gynnwys cyfeirio at ei brif amcanion). Dylai hyn gynnwys manylion:
    - casgliadau unrhyw asesiadau a wnaethpwyd gan Gymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod adrodd ar yr effaith y mae cyflawni ei swyddogaethau wedi ei chael ar system gymwysterau Cymru, dysgwyr, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch;
    - sut mae Cymwysterau Cymru wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd; ac
    - unrhyw gasgliadau y daethpwyd iddynt, yn ystod y cyfnod adrodd, o ganlyniad i unrhyw waith ymchwil a wnaed gan, neu ar ran, Cymwysterau Cymru.
  - Gweithgareddau a blaenoriaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.
29. Gallai'r adroddiad blynyddol gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol ym marn Cymwysterau Cymru.
30. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad ariannol ar wahân bob blwyddyn hyd 31 Mawrth.
31. Rhaid i Gymwysterau Cymru osod copi o'r adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol, a sicrhau ei fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd.
32. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (neu un o'i Bwyllgorau) yn craffu ar yr adroddiad blynyddol ac yn ei drafod, ac yn galw ar y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddarparu cadarnhad o gynnwys yr adroddiad neu dystiolaeth bellach. O ganlyniad i'r gwaith craffu a thrafod, fe allai gyflwyno argymhellion i Gymwysterau Cymru.
33. Gallai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd alw ar staff uwch Cymwysterau Cymru i ateb ymholiadau ar ymddygiad y mudiad.

## **Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

34. Y Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n gweithredu swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran addysg a sgiliau yng Nghymru. Bydd y Gweinidog yn cwrdd â Chadeirydd y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod a gwerthuso perfformiad ariannol Cymwysterau Cymru, ei gyfraniad i Gymru ac i bolisi addysg a sgiliau Llywodraeth Cymru.
35. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn penodi Aelodau'r Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol cyntaf, ac yn pennu telerau ac amodau eu penodiad. Bydd y Gweinidog hefyd yn asesu perfformiad Cadeirydd Cymwysterau Cymru. Yn ogystal â hyn, bydd y Gweinidog yn cymeradwyo telerau ac amodau gwaith staff Cymwysterau Cymru, fel y cynigir gan Gymwysterau Cymru<sup>3</sup>.
36. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cytuno ar gyllid ac yn ei ddyrannu i Gymwysterau Cymru yn unol â'r dyraniad grant y cytunwyd arno.
37. Bydd y Gweinidog a Chymwysterau Cymru, yn cytuno ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol ar y cyd, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cymwysterau Cymru. Rhagwelir mai Cymwysterau Cymru fydd yn cychwyn datblygu'r rhestr ac yna'n cynnig y rhestr i'r Gweinidog a fydd yn adolygu'r cynigion. Fodd bynnag, fe allai'r Gweinidog awgrymu diwygiadau i'r rhestr o gymwysterau blaenoriaethol o bryd i'w gilydd i'w hystyried a chytuno arnynt ar y cyd.

## **Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru**

38. Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yw Prif Swyddog Cyfrifyddu (PSC) Gweinidogion Cymru. Mae Trysorlys EM wedi nodi ei gyfrifoldebau ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (trwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol) ac i Senedd y DU (trwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am:
  - reoleidd-dra a phriodoldeb cyllid Llywodraeth Cymru;
  - cadw cyfrifon priodol Gweinidogion Cymru; ac am
  - ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys y cymorth grant a gadarnhawyd i Gymwysterau Cymru dan Gynnig Cyllidebol Blynyddol Llywodraeth Cymru.
39. Mae'r PSC hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill sydd ar waith ar draws Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus. Caiff ef neu hi gymorth y Dirprwy

---

<sup>3</sup> Yn ymarferol, bydd y swyddogaeth hon yn cael ei gweithredu'n bennaf gan yr Uned Noddi. Gweler y Rhestr Ddirprwyon yn Atodiad 4.

Ysgrifennydd Parhaol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud y dyletswyddau hyn, sef y sawl a benodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (SCY) a'r sawl sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros Gymwysterau Cymru.

### **Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru**

40. Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yw grŵp noddi Cymwysterau Cymru.
41. Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yw SCY y grŵp noddi. Mae ganddo gyfrifoldeb i'r Gweinidog a'r Cynulliad Cenedlaethol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r rheolaethau rheoli eraill sydd ar waith gan Gymwysterau Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion o ran rheoli arian yn briodol ac yn dda. Yn yr un modd, mae'r SCY yn gyfrifol am sicrhau bod datganiad digonol yn bodoli ynghylch y cysylltiad ariannol rhwng Gweinidogion Cymru a Chymwysterau Cymru a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae hefyd yn gyfrifol am effeithiolrwydd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru.
42. Mae'r SCY yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am y cymorth grant a gaiff Cymwysterau Cymru ac am gynghori'r Gweinidog ar gyllideb briodol i Gymwysterau Cymru, yn ôl blaenoriaethau gwario cyffredinol yr adran noddi.
43. Mae'r SCY hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yna drefniadau ar waith i:
  - fonitro gweithgareddau ariannol a sefyllfa ariannol Cymwysterau Cymru trwy gyfarfodydd a datganiadau rheolaidd;
  - mynd i'r afael â phroblemau ariannol mawr sy'n codi o fewn Cymwysterau Cymru, gan wneud unrhyw ymyriadau fel y gwêl angen;
  - cynnal asesiadau bob hyn a hyn o'r risgiau i'r adran ac i'r ffordd yr aiff Cymwysterau Cymru ati i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
  - hysbysu Cymwysterau Cymru am bolisi llywodraethol mewn modd amserol;
  - tynnu sylw Bwrdd Cymwysterau Cymru at unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau Cymwysterau Cymru lle bydd angen eglurhad a sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd i adfer y sefyllfa; a
  - phenodi Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru fel ei Swyddog Cyfrifyddu.
44. Gallai'r SCY ddirprwyo Cyfarwyddwr y Grŵp Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr (ICQLS) neu Gyfarwyddwr arall o fewn y Grŵp i fod yn gyfrifol am reoli'r cysylltiadau dyddiol â Chymwysterau Cymru.

### **Uned Noddi Cymwysterau Cymru**

45. Lleolir Uned Noddi Cymwysterau Cymru yn Isadran Cwricwlwm y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r uned hon yw'r cyswllt allweddol i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru o ran perfformiad ariannol Cymwysterau Cymru. Yr uned yw'r brif ffynhonnell o gyngor i'r Gweinidog wrth fynd ati i

gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at Gymwysterau Cymru, sy'n cynnwys paratoi a chytuno ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol. Mae'r uned hefyd yn cefnogi SCY y grŵp noddï wrth iddo fynd ati i gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at Gymwysterau Cymru, a bydd yn arwain y broses o gytuno ar ddyraniadau'r cymorth grant bob blwyddyn.

46. Bydd swyddogion yr Uned Noddi yn cysylltu'n rheolaidd â staff Gymwysterau Cymru er mwyn adolygu perfformiad ariannol y mudiad yn erbyn ei gyllideb. Bydd yr Uned Noddi yn sicrhau ei bod yn ymwybodol o ddatblygiadau polisi perthnasol diweddaraf Llywodraeth Cymru, ac yn tynnu sylw Gymwysterau Cymru tuag atynt pan allai'r rhain effeithio ar ei fusnes.
47. Bydd yr Uned Noddi hefyd yn ymddwyn fel y prif gyswllt a/neu ffynhonnell o gyngor i Gymwysterau Cymru o ran:
  - Unrhyw gytundebau rhwng y ddau fudiad mewn perthynas â dyletswyddau statudol Gymwysterau Cymru, er enghraifft, cytundebau rhannu data.
  - Unrhyw brotocolau a sefydlwyd rhwng Gweinidogion Cymru a Chymwysterau Cymru
  - Unrhyw gytundebau a sefydlwyd rhwng Gymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru, boed y rhain gyda'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus neu beidio. (Gweler paragraff 21 uchod.)
  - Caniatâd Gweinidogol statud, er enghraifft, cymeradwyaeth Gweinidogol ar gyfer cynlluniau codi tâl a luniwyd gan Gymwysterau Cymru.
48. Pan fydd unrhyw grŵp o Lywodraeth Cymru am gomisiynu Gymwysterau Cymru i berfformio dyletswyddau ychwanegol i'r rhai a nodwyd gan Ddeddf Gymwysterau Cymru, bydd yr Uned Noddi yn ymddwyn fel corff cyswllt contract; gan sicrhau y cytunir ar y telerau a'u bod yn cael eu nodi yn y Llythyr Dyrannu Grant.
49. Yr Uned Noddi fydd y prif bwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru i swyddogion sy'n cynnal rhaglen adolygu gyfnodol o Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
50. Bydd yr Uned Noddi yn gyfrifol am fonitro priodoldeb gweithgareddau Gymwysterau Cymru. Bydd yn gwneud hyn trwy arsylwi mewn cyfarfodydd Bwrdd perthnasol a chyfarfodydd Archwilio a Sicrhau Risg perthnasol, er mwyn darparu cyngor priodol i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, gan gydnabod y gallai fod rhai eitemau i'w trafod lle na fydd hi'n briodol i swyddogion yr Uned Noddi fod yn bresennol. Gall Gymwysterau Cymru wahodd yr Uned Noddi i'r cyfarfodydd hyn, a rhannu'r agendâu ar gyfer y cyfarfodydd hyn, er mwyn rhoi'r cyfle i'w gydweithwyr yn yr Uned Noddi fynegi diddordeb mewn arsylwi cyfarfod perthnasol lle nad ydynt wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol.
51. Pan fydd gan yr Uned Noddi dystiolaeth sy'n peri gofid ynghylch priodoldeb ymddygiad ariannol Gymwysterau Cymru, bydd yn cynghori'r Gweinidog ar gamau gweithredu priodol. Gallai hyn arwain at:
  - Ail-archwilio'r trefniadau ariannu.



- Cyfarfod rheoli perfformiad rhwng Cadeirydd Cymwysterau Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.
- Diswyddo'r Cadeirydd a/neu aelod(au) cyffredinol o'r Bwrdd.

### **Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru**

52. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb personol dros:
- stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdano;
  - gweithrediadau a rheolaeth ddyddiol Cymwysterau Cymru; a
  - sicrhau bod y mudiad yn cydymffurfio â gofynion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.
53. Gallai'r Prif Weithredwr gael cymorth gweithwyr Cymwysterau Cymru i gyflawni ei swyddogaeth. Gallai'r Prif Weithredwr hefyd ddirprwyo'r gweithwyr hynny i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, ond ni all ddirprwyo'r atebolrwydd.
54. Nodir cyfrifoldebau penodol swyddog cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB) ym memorandwm Llywodraeth Cymru '[Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru \(WGSB\)](#)'.

### **Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru yng nghyswllt Bwrdd Cymwysterau Cymru**

55. Mae Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru hefyd yn gyfrifol am:
- gynghori'r Bwrdd ar sut i gyflawni ei gyfrifoldebau, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen hon, llythyr dyrannu grant blynyddol y Gweinidog neu gyfathrebiad arall, ac unrhyw arweiniad arall y bydd ei angen o bryd i'w gilydd;
  - sicrhau bod y Bwrdd yn llwyr ystyried ystyriaethau ariannol yn ystod pob cam o'r broses o ddod i benderfyniad a'i weithredu, a bod technegau arfarnu ariannol priodol yn cael eu dilyn;
  - sicrhau bod system reoli risg yn cael ei chynnal er mwyn llywio penderfyniadau ar gynllunio ariannol;
  - sicrhau bod rheolaethau rheoli ac ariannol mewnol cadarn yn cael eu cyflwyno, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd; gan gynnwys mesurau i ddiogelu rhag twyll a lladrata (rhaid i fesurau o'r fath gynnwys system gynhwysfawr o awdurdodau dirprwyedig mewnol);
  - sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch Cymwysterau Cymru;
  - datblygu a chynnal polisiau rheoli personél priodol, a sicrhau bod y polisiau hyn ar gael yn hawdd i'r staff; a

- chymryd camau priodol, yn unol â thelerau'r memorandwm '[Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru](#)', os ymddengys fod y Bwrdd neu ei Gadeirydd yn ystyried cyflawni trafodiad y mae'r Prif Weithredwr yn credu y byddai'n groes i'r gofynion o ran priodoldeb a rheoleidd-dra, neu drafodiad nad yw'n cael ei ystyried yn gam darbodus na chynnil, yn effeithlon na'n effeithiol, a lle codir cwestiynau ynghylch ei ddichonoldeb neu ei foeseq.

### **Rôl y Prif Weithredwr fel swyddog cyfuno**

56. Mae Trysorlys EM wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfuno Cymwysterau Cymru er mwyn ymdrin â'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion Memorandwm y Swyddog Cyfuno.

### **Rôl y Prif Weithredwr fel y Prif Swyddog mewn Achosion Ombwdsmon**

57. Y Prif Weithredwr hefyd yw'r Prif Swyddog ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### **Atebolrwydd Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru i Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y Grwpiau Noddi (EPS)**

58. Mae Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru yn atebol i Swyddog Cyfrifyddu'r grŵp noddi (EPS) am y canlynol:

- sicrhau bod rhagolygon ariannol a gwybodaeth fonitro amserol yn cael eu darparu i'r Uned Noddi, bod yr Uned Noddi yn cael ei hysbysu'n syth os oes gorwariant neu danwariant yn debygol a bod camau unioni'n cael eu cymryd;
- sicrhau bod yr Uned Noddi yn cael ei hysbysu am broblemau mawr sy'n ymwneud â rheoleidd-dra Cymwysterau Cymru cyn gynted â phosibl<sup>4</sup>; a
- darparu unrhyw wybodaeth i'r Uned Noddi am wariant Cymwysterau Cymru y gallai fod ei hangen yn rhesymol ar yr Uned Noddi.

59. Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu copi o'i gynllun gweithredol blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn unol ag amserlen y cytunir arni gan yr Uned Noddi, er mwyn cefnogi ei rhagolygon cyllidebol. Bydd trafodaethau ariannol yn cael eu seilio ar y cynllun hwn gydol y cyfnod rhwng yr Uned Noddi a Chymwysterau Cymru. Bydd y cynllun yn seiliedig ar briif amcanion Cymwysterau Cymru, ac yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn i ddod.

### **Atebolrwydd Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

---

<sup>4</sup> Bydd yr Uned Noddi yn datblygu ac yn cytuno ar brotocol ar gyfer cyfathrebu digwyddiadau adroddadwy gyda Chymwysterau Cymru, a fydd yn cynnwys materion sy'n ymwneud â rheoleiddio ariannol, a rheoleiddio.

60. Mae Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y canlynol:

- llofnodi cyfrifon y mudiad a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o ran y cyfrifon;
- sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru;
- llofnodi datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu i'w gynnwys yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol;
- llofnodi'r Datganiad Llywodraethol i'w gynnwys yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol;
- rhoi tystiolaeth, gan gynnwys mynychu gwrandawiadau, ar faterion sy'n ymwneud â Chymwysterau Cymru sy'n dod gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgorau Seneddol eraill, sy'n cyfrif am stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus Cymwysterau Cymru; ac
- ymateb i unrhyw argymhellion a gynigir gan y pwyllgorau hynny.

### **Bwrdd Cymwysterau Cymru**

61. Caiff y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd eu penodi gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am gyfnod rhwng dwy neu dair blynedd. Rhaid penodi Cadeirydd yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

<https://www.publicappointmentscommissioner.org/web-app/plugins/spaw2/uploads/files/Code%20of%20Practice%20August%202005.pdf>

### **Cydggyfrifoldebau**

62. Rôl y Bwrdd yw:

- darparu arweinyddiaeth effeithiol i Gymwysterau Cymru; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion;
- darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer gweithredu'r mudiad; gwneud y Prif Weithredwr yn atebol am sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac effeithiol;
- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn llwyr gyflawni ei nodau, amcanion a'i dargedau perfformio; a
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

63. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ar reoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol. Rhaid iddo sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg dan gadeiryddiaeth aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd) er mwyn darparu cyngor annibynnol ar y materion hyn.
64. Disgwylir i'r Bwrdd sicrhau ei hun o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol a rheoli risg.
65. Nid yw cyfrifoldeb personol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu dros sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar aelodau unigol y Bwrdd. Mae gan bob aelod ddyletswydd i ymddwyn mewn modd sy'n hyrwyddo safonau uchel cyllid cyhoeddus, ac am sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cyflawni mewn modd effeithlon ac effeithiol.
66. Ni ddylai'r Bwrdd roi cyfarwyddiadau i'r Prif Weithredwr sy'n mynd yn groes i'w ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru.
67. Yn benodol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:
- sefydlu a chyflwyno nodau ac amcanion strategol Cymwysterau Cymru, yn unol â'i ddiben cyffredinol ac o fewn y fframwaith ariannol a bennir gan y Gweinidog;
  - sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar Lywodraeth Cymru a/neu gyflawniad prif amcanion Cymwysterau Cymru;
  - sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran defnyddio arian cyhoeddus; bod Cymwysterau Cymru yn gweithredu, yn ariannol, o fewn cyfyngiadau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno gan yr adran noddi, ac yn unol ag unrhyw amod arall sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus, a'i fod yn ystyried canllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau ariannol;
  - sicrhau: ei fod yn derbyn ac yn adolygu gwybodaeth ariannol am reolaeth Cymwysterau Cymru yn rheolaidd, ei fod yn cael gwybod mewn da bryd am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau Cymwysterau Cymru a, lle bo'n briodol, yn darparu sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog, trwy'r Uned Noddi, fod camau unioni priodol ar waith i fynd i'r afael â phryderon o'r fath;
  - arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ar bob adeg, gan gynnwys defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i helpu'r bwrdd i fynd i'r afael â risgiau ariannol a risgiau eraill allweddol; a
  - phenodi ail Brif Swyddog Gweithredol a swyddogion dilynol i'r mudiad.

68. Gall y Bwrdd, hyd eithaf yr hawl sydd ganddo dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ddirprwyo cyfrifoldeb i staff am weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, y Bwrdd fydd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am yr holl faterion hynny yn y pen draw.
69. Dylai Cymwysterau Cymru gynnal rhestr o faterion y mae angen i'r Bwrdd benderfynu arnynt yn ogystal â chynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

### **Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru**

70. Mae'r Cadeirydd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weithgarwch ac ymddygiad Cymwysterau Cymru, ac am sut yr aiff ati i gyflawni ei swyddogaethau statudol fel yr amlinellwyd yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.
71. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebiadau perthnasol â Gweinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bod cyfathrebiadau ffurfiol yn cael eu cyhoeddi. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a chamau gweithredu'r Bwrdd yn ystyried polisiau strategol ehangach Llywodraeth Cymru a'i fod yn ymdrin â'i faterion ag uniondeb. Rhaid cyfathrebu a lledaenu'r polisiau a'r camau gweithredu hyn ledled Cymwysterau Cymru lle bo'n briodol.
72. Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arweiniol arbennig mewn perthynas â:
  - llunio strategaethau'r Bwrdd;
  - sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gofynion statudol ac ariannol ac i brif amcanion a swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru wrth wneud penderfyniadau;
  - hyrwyddo defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
  - sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb; a
  - chynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd ac i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.
73. Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:
  - sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn cael ei friffio'n llawn ar delerau ei benodiad ac ar ei ddyletswyddau, ei hawliau a'i gyfrifoldebau;
  - sicrhau ei fod, gydag aelodau eraill o'r Bwrdd, yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant ar ofynion rheoli ac adrodd ariannol cyrff yn y sector cyhoeddus, a'r gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion yn y sector preifat a chyhoeddus;

- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd o sgiliau sy'n briodol i lywio busnes Cymwysterau Cymru, a chynghori'r Gweinidog ar anghenion Cymwysterau Cymru pan fydd swyddi gwag yn codi lle y bydd ef/hi'n gyfrifol am benodi;
- asesu perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd; a
- sicrhau bod Cod Ymddygiad ar waith i Aelodau o'r Bwrdd sy'n cyd-fynd â Chod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Bwrdd Cyfff Cyhoeddus.

### **Cyfrifoldebau personol aelodau unigol o'r Bwrdd**

74. Wrth fynd i'r afael â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, bydd aelodau'r Bwrdd:

- yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad Cymwysterau Cymru ar gyfer aelodau Bwrdd, ac â'r rheolau sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau;
- yn sicrhau nad ydynt yn camdefnyddio gwybodaeth a gânt yn ystod eu gwaith gyda'r gwasanaethau cyhoeddus at elw personol neu elw gwleidyddol, nac yn ceisio defnyddio'u cyfle gyda'r gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo diddordebau preifat neu ddiddordebau unigolion neu fudiadau y maen nhw'n perthyn iddynt;
- yn cydymffurfio â rheolau Cymwysterau Cymru o ran derbyn rhoddion a lletygarwch, ac o ran apwyntiadau busnes; a
- bob amser yn ymddwyn yn briodol ac er pennaf les Cymwysterau Cymru.

### **Adrodd Blynyddol**

75. Bydd Cymwysterau Cymru yn paratoi dau adroddiad blynyddol:

- Adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei weithgarwch hyd at 31 Awst bob blwyddyn, a
- Chyfes o gyfrifon blynyddol hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Disgrifir y rhain yn fanylach ym Mhennod 3.

## **3 TREFNIADAU RHEOLI**

### **Staff Cymwysterau Cymru**

#### **Recriwtio, cadw a rheoli staff**

76. O fewn y trefniadau a gymeradwywyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, mae Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am recriwtio, cadw ac ysgogi ei staff.

77. O ran recriwtio, rheoli a datblygu staff, bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn yr egwyddorion a'r ymddygiadau a amlinellwyd ym Mhennod 4 o 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', a dylai ystyried dogfen Llywodraeth Cymru, 'Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru <<http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/worktogether/?skip=1&lang=cy>>.'

### **Cyflog, telerau ac amodau gwaith**

78. Bydd pob aelod o staff yn cael yr un lefelau cyffredinol o gydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau gwasanaeth (gan gynnwys blwydd-daliadau), fel y'u cymeradwywyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Rhaid i unrhyw newidiadau a wneir i'r telerau ac amodau cyffredinol hynny, gan gynnwys lefelau'r gydnabyddiaeth ariannol, gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog.
79. Nid oes gan Gymwysterau Cymru unrhyw bwerau dirprwyedig i ddiwygio'i delerau ac amodau gwaith cyffredinol. Fodd bynnag, gall Cymwysterau Cymru amrywio contractau gwaith unigol heb ganiatâd blaenorol y Gweinidog os yw'r newidiadau o fewn fframwaith cyffredinol y telerau ac amodau a gymeradwywyd gan y Gweinidog. Pan fydd amheuaeth, dylai Cymwysterau Cymru gysylltu â'r Uned Noddi.
80. Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu copiâu o'i delerau ac amodau i staff i'r Uned Noddi a'i hysbysu am unrhyw ddiwygiadau dilynol y bydd eu hangen.

### **Cylch Cyflog**

81. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno achos manwl i'r Uned Noddi ar gyfer ei gylch cyflog blynyddol ar gyfer trafodaethau cyflog. Rhaid i'r cylch cyflog fod ar fformat a nodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru a rhaid iddo ddangos angen Cymwysterau Cymru am newidiadau o ran cyflog, graddio a thelerau ac amodau eraill o'r gwasanaeth. Rhaid i'r cynigion gael eu costio'n llawn a dangos eu bod yn fforddiadwy ar gyfer y flwyddyn dan sylw a blynyddoedd i ddod. Disgwylir i Gymwysterau Cymru weithredu system gyflog sy'n darparu cyfle cyfartal i bob aelod o staff gael datblygiad cyflog.
82. Rhaid i'r Uned Noddi fod yn fodlon bod archwiliad cyflog cyfartal wedi'i gynnal o'r holl drefniadau cyflog ac, yn ogystal â hyn, bydd angen tystiolaeth o bryd i'w gilydd bod trefniadau sicrhau ansawdd annibynnol wedi'u rhoi ar waith i fodloni'r gofyniad hwn.
83. Bydd angen i Gymwysterau Cymru ystyried cyhoeddiad Trysorlys EM ym mis Mai 2012, "Adolygiad o Drefniadau Treth Penodiadau Sector Cyhoeddus". Mae'r Canllaw hwn yn cadarnhau bod angen i bob aelod o staff gael ei dalu trwy drefniadau cyflogres. Ni chaniateir trefniadau eraill lle y telir staff (yn arbennig staff uwch sy'n ennill dros £58,200 y flwyddyn) trwy gyfryngwyr, gan gynnwys asiantaethau, busnesau cyflogi a chwmnïau gwasanaeth personol. Bydd angen i Gymwysterau Cymru wneud digon o ymholiadau i sicrhau ei

hun fod unrhyw un ar secondiad ar gyflogres y mudiad sy'n ei secondio, yn hytrach nag yn defnyddio trefniant cyfryngol.

### **Buddion staff a gwobrwyon di-dâl**

84. Wrth ystyried p'un a ddylid darparu rhoddion neu wobrwyon di-dâl i staff neu aelodau o'r Bwrdd, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried a fyddai cam o'r fath yn ddefnydd priodol o arian cyhoeddus. Wrth lunio cynlluniau buddion neu wobrwyon di-dâl i staff, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried canllawiau Trysorlys EM '[Rheoleidd-dra, Priodoldeb a Gwerth am Arian](#)' a '[Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#)'.

### **Pensiynau a'r Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE)**

85. Bydd staff cymwys Cymwysterau Cymru yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar ei gynllun pensiwn galwedigaethol cymeradwyol, yn unol â'r diwygiadau pensiwn yn y gweithle a amlinellwyd yn Neddff Pensiynau 2008 a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Cofrestru Awtomatig) (Diwygiad) 2012. O bryd i'w gilydd, gallai'r Uned Noddi ofyn am fanylion y staff hynny sy'n dewis tynnu allan o'r cynllun pensiwn galwedigaethol wedi iddynt gael eu cofrestru'n awtomatig.
86. Ers Ebrill 2013, mae yna ofyniad cyfreithiol ar gyflogwyr i adrodd ar PAYE mewn amser real. Bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTHEM) am drethi, cyfraniadau yswiriant gwladol a didyniadau eraill pan fydd y taliadau'n cael eu gwneud, neu cyn hynny, yn hytrach nag aros tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

### **Diswyddo, taliad diswyddo ac iawndal**

87. Rhaid i unrhyw daliadau diswyddo neu daliadau iawndal eraill am golli swydd gael eu gwneud yn unol â chynllun a gymeradwywyd gan yr Uned Noddi. Bydd yn rhaid i unrhyw gynnig i wneud taliadau y tu allan i gynllun a gymeradwywyd gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Uned Noddi ymlaen llaw.
88. Rhaid i gynigion ynghylch taliadau diswyddo gydymffurfio â'r rheolau a nodir ym Mhennod 4 o '[Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#).' Rhaid dod i gytundeb â'r Uned Noddi am ail-benodi staff wedi diswyddiad neu iawndal diswyddo cyn trafod unrhyw beth gyda'r unigolyn dan sylw. Y brif egwyddor a ddilynir yw na chaiff aelod o staff sydd wedi derbyn iawndal am golli swydd/cyflogaeth ei ail-gyflogi gan Gymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod y tybir fod y taliad terfynol yn ymwneud ag ef.

### **Trefniadau cynllunio**

#### **Cynllunio cyllideb**

89. Rheolir trefniadau cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru gan ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.



90. Bydd Cymwysterau Cymru yn cydweithio â'r Uned Noddi i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'i benderfyniadau o ran cynllunio cyllideb. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw arbedion effeithlonrwydd blynyddol ac unrhyw weithgareddau na fyddai'n gallu cael eu cwblhau o bosibl pe bai'r arian yn cael ei gyfyngu.

### **Llythyr dyrannu grant**

91. Erbyn diwedd mis Tachwedd cyn y flwyddyn ariannol berthnasol, bydd y Gweinidog yn trafod drafft o lythyr dyrannu grant gyda Chymwysterau Cymru a fydd yn amlinellu telerau Llywodraeth Cymru o ran arian cymorth grant. Bydd y llythyr dyrannu grant terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl, fel arfer dim hwyrach na mis wedi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r gyllideb derfynol. Bydd yn cynnwys y ffigur cymorth grant y cytunwyd arno a'r cyfansymiau rheoli cyllideb perthnasol. Bydd Cymwysterau Cymru yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw amrywiadau i ddyraniad y gyllideb yn ystod y flwyddyn, gan roi rhybudd priodol ymlaen llaw, lle bo hynny'n bosibl.

### **Rheoli Risg**

92. Bydd Cymwysterau Cymru yn datblygu strategaeth rheoli risg er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau tybiedig yn unol â'r agweddau perthnasol o'r canllawiau ar arfer gorau mewn llywodraethu corfforaethol.
93. Rhaid i Gymwysterau Cymru fabwysiadu a gweithredu polisiau ac arferion i ddiogelu ei hun rhag twyll a lladrata.
94. Bydd Cymwysterau Cymru yn cymryd camau rhesymol i arfarnu sefyllfa ariannol busnes neu gorff arall y mae'n bwriadu ymuno ag ef trwy gontract neu roi grant neu gymorth grant iddo, yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig y caffaeliad neu gynllun grant.

### **Monitro economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**

95. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau bod ganddo systemau priodol ar waith a'r gallu i sicrhau fod ei bolisiau a'i raglenni'n seiliedig ar dystiolaeth o ran y ffordd y cânt eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso. Bydd yn adolygu ei wasanaethau a'i weithgareddau'n rheolaidd ac yn nodi'r mesurau sydd ar waith i ddatblygu effeithlonrwydd i'r eithaf yn ei Gyfrifon Blynyddol. Rhaid i Gymwysterau Cymru hefyd sicrhau bod y modd yr aiff ati i arfarnu a gwerthuso'n cyd-fynd yn llwyr â'r egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau.

## **4 TREFNIADAU CYFRIFYDDU AC ARCHWILIO ARIANNOL**

### **Cyfrifoldebau ariannol Cymwysterau Cymru**

96. Oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan yr Uned Noddi, bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn yr egwyddorion, rheolau, canllawiau a'r cyngor a nodir yn '[Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#)' a'r Ddogfen Fframwaith hwn ar bob adeg, gan atgyfeirio unrhyw anawsterau neu gynigion eithrio posibl i'r Uned Noddi i ddechrau. Gweler rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru eu dilyn yn Atodiad 3.
97. Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu systemau gwybodaeth a chyfrifyddu a fydd yn ei alluogi i adolygu ei berfformiad ariannol a pherfformiad nad yw'n ariannol yn erbyn y targedau a osodir yn y cynlluniau corfforaethol a gweithredol mewn modd amserol ac effeithiol. Bydd yn hysbysu'r Uned Noddi am unrhyw newidiadau sy'n ei gwneud hi'n haws neu'n anoddach i gyflawni amcanion.

### **Adrodd cyffredinol**

98. Bydd Cymwysterau Cymru yn darparu adroddiad i'r Uned Noddi bob chwarter sy'n nodi'r gwariant gwirioneddol hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn yn erbyn y cyllidebau cymeradwy, ynghyd â'r ffigurau gwariant a ragwelir am y flwyddyn ac eglurhad o unrhyw faterion a gwahaniaethau sylweddol. Bydd y fformat adrodd yn cyd-fynd â threfniadau Cymwysterau Cymru ar gyfer adrodd i'w Fwrdd lle bo hynny'n bosibl.
99. Bydd Cymwysterau Cymru a'r Uned Noddi yn cwrdd unwaith bob chwarter i drafod adroddiadau. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol hefyd yn cwrdd â'r Gweinidog unwaith y flwyddyn i drafod gweithgareddau a gwariant.

### **Adrodd eithriadau**

100. Rhaid i Gymwysterau Cymru hysbysu'r Uned Noddi cyn gynted â'i fod yn sylweddoli naill ai bod y gwariant dros flwyddyn gyfan yn debygol o fynd dros y gyllideb gymeradwy neu fod Cymwysterau Cymru yn debygol o danwario mwy na'r swm cyfatebol o 3 y cant o gyfanswm ei gymorth grant.
101. Bydd hefyd yn darparu:
  - adroddiad blynyddol o golledion a ddilëwyd a thaliadau arbennig a dalwyd neu a ganiatawyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol; ac
  - adroddiad blynyddol yn amlinellu pob achos o dwyll a lladrata y mae wedi'i wynebu.

### **Cyfrifon statudol**

102. Bob blwyddyn ariannol, rhaid i Gymwysterau Cymru baratoi cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru, y statudau perthnasol a'r [Llawlyfr Adroddiadau Ariannol](#) [FReM]. Cyn gynted ag y bydd yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, bydd Cymwysterau Cymru yn cyflwyno'r cyfrifon wedi'u llofnodi i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), ynghyd â llythyr sylwadau. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn cyflwyno dau gopi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi i'r adran noddi. Bydd yr ACC yn gosod y cyfrifon wedi'u

harchwilio gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Cymwysterau Cymru 2015.

## **Incwm**

### **Arian cyhoeddus**

103. Bydd pob ffynhonnell o incwm a grybwyllir yn y paragraffau dilynol ('Incwm o ffynonellau'r Trysorlys' ac 'Incwm na ddaw o ffynonellau'r Trysorlys') yn cael ei thrin fel arian cyhoeddus, a bydd gofynion y ddogfen hon yn berthnasol i bob un ohonynt.

### **Incwm o Ffynonellau'r Trysorlys (cymorth grant)**

104. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno taliadau cymorth grant i Gymwysterau Cymru. Bydd cymorth grant yn cael ei dalu mewn cyfranddaliadau misol, ar sail cais i'r uned noddi. Rhaid darparu hwn ar ffurf datganiad ariannol, fel y nodir yn y ffurflen tynnu i lawr cymorth grant, a'i gyflwyno gan unigolyn y mae'r Uned Noddi wedi cael gwybod sy'n berson ag awdurdod i wneud y cais. Ni all Cymwysterau Cymru dynnu i lawr cymorth grant cyn y bydd ei angen.

105. Fel arfer, rhaid ildio enillion o £1 miliwn neu fwy a ddaw yn sgil cael gwared ag ased a ariannwyd gan y Trysorlys i Lywodraeth Cymru, oni chytunwyd fel arall.

106. Gellir cadw enillion o lai nag £1 miliwn a geir yn sgil gwerthu asedau eraill a ariannwyd gan y Trysorlys, ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf arall – sy'n cynnwys gwario ar adeiladau newydd, tir, estyniadau neu addasiadau i adeiladau sy'n bodoli eisoes – ac i brynu unrhyw ased neu gyfres o asedau ar wahân (e.e. peirianweithiau a pheiriannau), gan gynnwys cerbydau, y mae disgwyl iddynt weithio am fwy nag un flwyddyn – ac ar yr amod nad yw cyfanswm y derbynebaw yn y flwyddyn ariannol yn fwy na'r cyfyngiad a osodwyd yn y llythyr cyllideb/cylch gwaith.

### **Incwm na ddaw o ffynonellau'r Trysorlys**

107. Rhaid i Gymwysterau Cymru, pan fo hyn yn cyd-fynd â'i swyddogaethau, geisio'i orau i gael cymaint â phosibl o dderbynebaw o ffynonellau na ddaw o'r Trysorlys. Gall gadw derbynebaw hyd at y lefel a nodwyd yn y llythyr cyllideb/dyrannu grant a ddaw, er enghraifft, o enillion a geir trwy werthu tir ac adeiladau ac asedau eraill, grantiau a roddwyd gan yr UE, grantiau a roddwyd trwy gronfeydd loteri, unrhyw enillion o weithgareddau masnachol Cymwysterau Cymru a'r enillion a ddaw yn sgil gwerthu gwasanaethau i farchnadoedd ehangach. Bydd rhaid i unrhyw weithgareddau o'r fath gael eu gwneud yn unol â'r amodau yn ['Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'](#) a'r ddogfen hon.

108. Gellir cadw enillion sy'n dod yn sgil gwerthu asedau eraill ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf arall - megis gwario ar adeiladau newydd, tir, estyniadau neu addasiadau i adeiladau sy'n bodoli eisoes ac i brynu unrhyw ased neu gyfres o asedau ar wahân (e.e. peirianweithiau a

pheiriannau), gan gynnwys cerbydau, y mae disgwyl iddynt weithio am fwy nag un flwyddyn - ac ar yr amod nad yw cyfanswm y derbynebau yn y flwyddyn ariannol yn fwy na'r cyfyngiad a osodwyd yn y llythyr cyllideb/cylch gwaith.

### **Arian preifat**

109. Ystyrir rhoddion, grantiau ar gyfer gwaith ymchwil gan sefydliadau nas ariennir yn gyhoeddus neu gymynroddion a roddir i Gymwysterau Cymru yn arian preifat, ac nid ydynt yn cael eu cynnwys dan delerau'r ddogfen hon. Nid ystyrir arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, adrannau eraill o'r Llywodraeth, asiantaethau a mudiadau cyhoeddus eraill na'r rhai a noddir yn bennaf gan dalwyr trethi, nac unrhyw enillion o fuddion neu weithgareddau Gymwysterau Cymru, yn arian preifat.

### **Ffioedd a thaliadau**

110. Yn unol ag unrhyw ddarpariaethau statudol, rhaid i unrhyw ffioedd a thaliadau a godir ar wasanaethau a ddarperir gan Gymwysterau Cymru gael eu pennu'n unol â [Canllaw Ffioedd a Thaliadau Trysorlys EM](http://www.dhsspsni.gov.uk/fmd17-05.pdf) <<http://www.dhsspsni.gov.uk/fmd17-05.pdf>> ac unrhyw ganllawiau neu benderfyniadau eraill a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru neu'r Trysorlys. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymeradwyo unrhyw gynllun codi tâl cyn iddo gael ei gyflwyno.

### **Gwariant**

111. Yn unol ag unrhyw gyfyngiad a osodir gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 neu gan y ddogfen hon, a chyn gynted ag y caiff Cymwysterau Cymru gadarnhad o'i gyllideb gan y Gweinidog, gall ddechrau gwario ar y rhaglen a gymeradwywyd yn ei gyllideb flynyddol heb gysylltu ymhellach â'r Uned Noddi, yn unol â'r amodau canlynol:

- Bydd Cymwysterau Cymru yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodwyd yn Atodiad 4. Ni ellir addasu na thorri'r dirprwyaethau hyn heb ganiatâd ysgrifenedig yr Uned Noddi ymlaen llaw.

112. Rhaid i Gymwysterau Cymru gael cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn bwrw ati gyda chynnig a fyddai'n gofyn am lawer mwy o adnoddau ariannol.

- cynnig y gellid ei ystyried yn newydd, yn gynhennus neu'n un ag ôl-ffeithiau,
- newid polisi neu arfer sydd â goblygiadau ariannol eang,
- unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau fyddai eu hangen yn y dyfodol, neu
- newid sylweddol yng ngweithrediad neu ariannu unrhyw fenter neu gynllun penodol a gymeradwywyd gan yr Uned Noddi.

113. Bydd Cymwysterau Cymru yn dilyn y fframwaith polisi a nodwyd yn [‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’](#) o ran caffael nwyddau a gwasanaethau.
114. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn derbyn ceisiadau am dalu ymlaen llaw, heblaw mewn achosion eithriadol lle yr ystyrir y bydd angen rhywfaint o daliad. Mewn achosion o’r fath, rhaid cadw at yr egwyddorion a amlinellir yn ‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’.
115. Bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori â’r Uned Noddi cyn arwyddo unrhyw gytundeb i brydlesu eiddo os yw’n uwch na’r cyfyngiadau dirprwyedig. Rhaid i’r Uned Noddi hefyd gymeradwyo unrhyw gynnig i adleoli neu symud i lety newydd ymlaen llaw.
116. Rhaid i Gymwysterau Cymru fynd ati i drin anrhegion mewn modd agored a thryloyw, a chael polisiâu clir ynghylch y gweithdrefnau a fabwysiadir ar gyfer rhoi a derbyn unrhyw roddion a’r modd y datgelir gwybodaeth am hynny.

### **Benthyciadau, gwarantau a buddsoddiadau**

117. Ni fydd Cymwysterau Cymru, heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol gan y Gweinidog, yn trefnu cyfleusterau benthycyd dros dro ar ffurf benthyciad i bontio unrhyw fylchau rhwng trefniadau benthycyd hirdymor, yn codi tâl ar unrhyw ased neu ddiogelwch, yn rhoi unrhyw warant indemniad, llythyrau cysur, nac yn achosi unrhyw rwymedigaeth ddigwyddiadol arall (fel y’ disgrifir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru), p’un a ydynt wedi’u rhwymo mewn cyfraith neu beidio. Rhaid i bob gwarant ac indemniad ariannol a roddir gan Gymwysterau Cymru gael sicrwydd digonol yn erbyn Adnoddau Gwariant Cyhoeddus y Cynulliad na chawsant eu tynnu i lawr.
118. Ni fydd Cymwysterau Cymru chwaith yn gwneud unrhyw fuddsoddiad heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y Gweinidog ymlaen llaw, heblaw mewn cysylltiad ag adneuoŷn tymor byr o wargedion arian parod.
119. Gyda chytundeb yr Undeb Noddi, gall Cymwysterau Cymru drefnu cyfleusterau benthycyd dros dro er mwyn rheoli gofynion sy’n ymwneud â llif arian tymor byr, hyd at gyfyngiad gwerth costau staff misol, lle bo angen.

### **Grantiau a benthycia**

120. Rhaid i bob grant gydymffurfio â thelerau [‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’](#), a dilyn telerau ac amodau priodol sy’n darparu diogelwch digonol i boced y cyhoedd. Er enghraifft, rhaid i’r telerau ac amodau ganiatáu ar gyfer taliadau graddol, atgyfnerthu hawliau mynediad swyddogion Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, sicrhau bod buddion ariannol Llywodraeth Cymru yn cael eu diogelu’n ddigonol a chaniatáu ar gyfer cymryd yn ôl mewn amgylchiadau penodol, e.e. os caiff arian grant ei ddefnyddio at rywbeth y tu hwnt i’r dibenion cymeradwy.
121. Rhaid i unrhyw gynllun benthycyd gael ei reoli dan drefniadau tebyg, a bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog.

## **Rheoli arian parod**

### **Balansau arian parod cymorth grant mewn blwyddyn**

122. Rhaid cadw unrhyw falansau arian parod a gronnir yn ystod y flwyddyn ariannol o gymorth grant neu arian arall y Trysorlys ar y lefel leiaf sydd ei hangen ar Gymwysterau Cymru i weithredu'n effeithlon. Rhaid i Gymwysterau Cymru geisio osgoi cadw balans gweithio sy'n cyfateb â mwy na 4 y cant o gyfanswm ei gyllideb gros flynyddol pan fydd yn derbyn pob rhandaliad misol o gymorth grant. Bydd unrhyw arian a gedwir fel balans gweithio ar ddiwedd pob cyfnod cyllido yn cael ei ystyried wrth bennu faint o gymorth grant fydd yn cael ei dalu yn y cyfnod dilynol.

### **Balansau arian parod cymorth grant diwedd blwyddyn**

123. Caiff Cymwysterau Cymru gario drosodd unrhyw falansau arian a dynnwyd i lawr ond na wariwyd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, hyd at 2 y cant o gyfanswm y gyllideb cymorth grant y cytunwyd iddo ei gael yn flynyddol. Rhaid i'r Uned Noddi gytuno'n ysgrifenedig fesul achos ac ymlaen llaw ar unrhyw gynnig i gario mwy na'r swm hwn drosodd. Bydd unrhyw swm a gaiff ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno yn cael ei ystyried yn y cymorth grant am y flwyddyn ddilynol.

## **Rheoli derbynebau**

124. Os yw'r derbynebau a gyflawnir neu'r rhai y disgwylir iddynt gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol yn llai na'r hyn a dybiwyd, rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau bod gostyngiad cyfatebol yn ei daliadau gros fel na fydd yn mynd dros ei ddarpariaeth awdurdodedig.

125. Os yw'r derbynebau a gyflawnir neu'r rhai y disgwylir iddynt gael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol yn fwy na'r hyn a dybiwyd, gall Cymwysterau Cymru wneud cais i'r Uned Noddi i gadw gormodedd incwm o'r fath ar gyfer gwariant ychwanegol penodol.

## **Trosglwyddiad**

126. Pan fydd y Gweinidog yn nodi cyllidebau penodol yn y llythyr dyrannu grant, gall Cymwysterau Cymru ail-leoli'r arian rhwng y cyllidebau hynny heb gytundeb ysgrifenedig yr Uned Noddi. Mae eithriadau i hyn, sef lle y bydd:

- y symiau yn ymwneud â darpariaethau wedi'u clustnodi yn y llythyr dyrannu grant;
- yr adleoli rhwng llinellau gwariant cyfalaf, llinellau gwariant sydd bron â bod yn arian parod neu nad ydynt yn arian parod; a
- thaliadau net Cymwysterau Cymru yn mynd uwchlaw cyfanswm y gyllideb gymeradwy.

127. Ar wahân i'r uchod, ni cheir cynyddu cyfanswm y gyllideb heb gael cytundeb ysgrifenedig yr Uned Noddi ymlaen llaw.

### **Llog a Enillir ar Falansau Arian Parod a Banc**

128. Rhaid i bob budd a enillir gan Gymwysterau Cymru ar ei falansau arian parod a banc, yn glir o unrhyw daliadau banc, a ddaw yn sgil arian gan Lywodraeth Cymru, gael ei ddatgan bob mis ar ffurflen gais tynnu i lawr cymorth grant Cymwysterau Cymru, a bydd y ffurflen hon yn cael ei chyflwyno i Drysorlys EM trwy Gronfa Gyfunol Cymru.

### **Trefniadau archwilio ac adrodd dilynol**

#### **Pwyllgor archwilio a sicrhau risg**

129. Rhaid i Gymwysterau Cymru sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i gynghori ei Swyddog Cyfrifyddu ar ddigonolrwydd y trefniadau o fewn Cymwysterau Cymru ar gyfer archwiliadau mewnol, archwiliadau allanol a materion llywodraethu corfforaethol. Gallai Cymwysterau Cymru rannu copïau o gofnodion cyfarfodydd ei Bwyllgor Archwilio a Risg gyda'r Uned Noddi. Gallai'r Uned Noddi hefyd fynd i gyfarfodydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio a Risg, fel arsyllwyr, os yw'r amgylchiadau'n gofyn am hynny.

#### **Archwiliad mewnol**

130. Rhaid i Gymwysterau Cymru:

- sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer archwiliad mewnol yn unol â'r amodau, y safonau a'r arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus Trysorlys EM;
- os gwneir y gwaith yn fewnol, sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i adolygu ansawdd allanol ei archwiliadau mewnol o leiaf unwaith bob pum mlynedd, ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a all ddibynnu ar yr adolygiadau hyn i ddarparu sicrwydd o ansawdd archwiliadau mewnol Cymwysterau Cymru;
- bob blwyddyn, yn dilyn cymeradwyaeth gan Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru a'i Bwyllgor Sicrhau Risg, gyflwyno strategaeth archwilio, cynlluniau archwilio cyfnodol ac adroddiad archwilio blynyddol, gan gynnwys barn y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol ar reoli risg, rheolaeth a llywodraethu (ar sail gweithgareddau'r Archwiliadau Mewnol); a
- hysbysu'r Uned Noddi cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl ei drefniadau Archwilio Mewnol a/neu ei Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

131. Bydd yr Uned Noddi yn:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau archwilio mewnol Cymwysterau Cymru trwy graffu ar ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol;
- asesu effeithiolrwydd gweithgarwch archwilio mewnol Cymwysterau Cymru, ei adroddiadau ar weithgarwch blaenorol a'i adroddiad sicrwydd blynyddol (fel y'u paratowyd gan y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol); a
- meddu ar yr hawl i weld pob dogfen a baratowyd gan archwilydd mewnol Cymwysterau Cymru, gan gynnwys pan gaiff y gwasanaeth ei gontractio allan.

## **Archwiliad allanol**

132. Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yw archwilydd allanol statudol Cymwysterau Cymru, a rhaid iddo archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau cyfrifon Cymwysterau Cymru.
133. O ganlyniad i ddarpariaethau newydd o fewn Deddf Cwmnïau 2006 ynghylch archwilio endidau yn y sector cyhoeddus, mae'r trefniadau ar gyfer archwilio unrhyw is-gwmni a sefydlwyd gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
134. Bydd ACC yn anfon copi o'i Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a'i lythyr Rheoli terfynol at Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yr adran noddi. O dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall ACC gynnal archwiliadau o ba mor ddarabodus, effeithlon ac effeithiol y mae Cymwysterau Cymru wedi defnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. O dan adran 145A, gall ACC gynnal astudiaethau sydd wedi'u llunio i'w alluogi i wneud argymhellion ar sut y gall cyrff gyflawni eu swyddogaethau'n fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â'r archwiliad ariannol statudol, mae gan ACC hawl statudol i weld dogfennau.
135. Bydd hefyd gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yr [hawl](#) i weld unrhyw ddogfennaeth berthnasol yn rhinwedd adran 136 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal â hyn, bydd Cymwysterau Cymru, o ran grantiau a chontractau, yn hwyluso mynediad ACC i ddogfennau o'r fath sydd gan dderbynyddion grant a chontractwyr ac isgontractwyr, fel y bo'u hangen ar gyfer yr archwiliadau hyn, a bydd yn ceisio'i orau i sicrhau bod ACC yn cael mynediad i unrhyw ddogfen arall y bydd eu hangen ar ACC sydd gyda chyrrff eraill.

## **Hawl mynediad yr adran noddi**

136. Yn ôl yr angen, mae gan yr Uned Noddi yr hawl i gael mynediad i gofnodion ariannol a phersonél Cymwysterau Cymru at ddibenion monitro, gan gynnwys, er enghraifft, archwiliadau noddi.

## **Is-gwmnïau a chyd-fentrau**



137. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn sefydlu is-gwmnïau na chyd-fentrau sy'n ymwneud â threfnu cerbydau at ddibenion arbennig - megis partneriaethau cwmni neu unrhyw strwythur arall gyda hunaniaeth ac atebolrwydd cyfreithiol - heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig y Gweinidog ymlaen llaw.
138. Bydd unrhyw is-gwmni neu gyd-fenter sy'n eiddo i gymwysterau Cymru, neu dan ei reolaeth, yn cael eu cydgrynhoi, fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu ac, oni chytunir fel arall gan yr Uned Noddi, bydd pob un yn gorfod dilyn y rheoliadau a'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon, ac unrhyw ddarpariaethau eraill a nodir mewn canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol.

## **ATODIAD 1 EGWYDDORION LLYWODRAETHU**

### **Annibyniaeth Cymwysterau Cymru**

Mae Cymwysterau Cymru yn dibynnu'n ariannol ar nawdd gan y llywodraeth ac mae'n atebol i Weinidogion am y gwariant hwnnw.

Fodd bynnag, mae ganddo annibyniaeth o ran trefniadau gweithredol. Mae hyn yn sicrhau na chaiff ei ddylanwadu'n wleidyddol, ac mae'n hybu hyder y cyhoedd yng ngwaith Cymwysterau Cymru.

### **Llywodraethu Cymwysterau Cymru**

Bwrdd Cymwysterau Cymru ddylai fod yn bennaf gyfrifol am y llywodraethu a'r trefniadau rheoli mewnol.

Mae gan CNLC rôl allweddol o ran llywodraethu Cymru a gwireddu dyheadau dinasyddion Cymru. Rheolir y berthynas rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymwysterau Cymru trwy drefniadau a reolir gan Gomisiwn y Cynulliad.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau ei fod yn gwneud hynny mewn modd sy'n gyson â'r [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#) a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).

### **Canolbwyntio ar y dysgwr**

Bydd yr Uned Noddi a Chymwysterau Cymru yn ymdrechu i gael canlyniadau sy'n ystyried diogelwch a lles dysgwyr Cymru ym mhob gweithgarwch cydweithredol a wnânt.

### **Diben Nawdd**

Amcanion noddi yw:

- meithrin a chynnal perthynas bositif rhwng y corff a noddir a Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd a chyfathrebu'n agored ac yn onest;
- darparu'r gefnogaeth a'r cyfarwyddyd y bydd y corff a noddir eu hangen neu'n gofyn amdanynt, er mwyn cyflawni ei amcanion;
- sicrhau bod prif nodau ac amcanion y corff a noddir yn cael eu cyflawni; ac

- annog a hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

### **Perthynas gyfathrebol**

Bydd Cymwysterau Cymru yn cwrdd â'r Uned Noddi o leiaf bob chwarter i drafod cynnydd. Fodd bynnag, byddant yn cyfathrebu'n barhaus, mewn modd cydweithredol a thryloyw.

Bydd cyfarfodydd rheolaidd, anffurfiol yn cael eu cynnal rhwng Prif Swyddog Gweithredol Cymwysterau Cymru a'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gyfarwyddwr ICQLS.

## ATODIAD 2 HANFODION NODDI EFFEITHIOL

Nodir yr egwyddorion sy'n diffinio'r berthynas waith rhwng adran noddï a chorff a noddïr yn Atodiad 1 o'r Ddogfen Fframwaith hon.

Amcanion noddï yw:

- Meithrin perthynas â'r corff a noddïr sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch tuag at ei gilydd a chyfathrebu'n agored ac yn onest.
- Sicrhau bod prif nodau ac amcanion y corff a noddïr yn cael eu cyflawni.
- Darparu'r gefnogaeth a'r cyfarwyddyd y bydd y corff a noddïr eu hangen neu'n gofyn amdanynt, er mwyn cyflawni ei amcanion.
- Annog a hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol o fewn y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol

Ceisïa'r paragraffau dilynol grynhoi gofynion pwysicaf noddï a fydd yn helpu i sicrhau y gellir cyflawni'r rôl mor effeithiol â phosibl.

- **Dealltwriaeth glir o'r canlynol:**
  - **fframwaith llywodraethu corfforaethol y mae'r CNLC yn gweithredu o'i fewn:** gwybodaeth dda am sut mae'r broses o greu cynlluniau gweithredol a busnes a gosod cymorth grant yn gweithio. Sicrhau bod y CNLC yn deall y broses fonitro ariannol a'r hyn a ddisgwylir ganddo.<sup>5</sup>
  - **fframwaith atebolrwydd ariannol y mae'r Uned Noddï a'r CNLC yn gweithredu o'i fewn:** gwybodaeth glir am y swyddogaethau unigol a'r goblygiadau a nodir yn y ddogfen fframwaith, perthnasedd a phwysigrwydd y broses archwilio, gan gynnwys llythyrau rheoli ac adroddiadau sicrwydd ychwanegol, sensitifrwydd argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a sut y cyflawnir hwy.
  - **Swyddogaeth a strwythur gweithredol y CNLC,** ynghyd â gwerthfawrogiad o'r problemau y mae'n eu hwynebu neu'n disgwyl eu hwynebu, a swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir rhwng yr Uned Noddï a'r CNLC.
- **Asesiad clir a pharhaus o'r risgiau sy'n ymwneud â'r berthynas noddï a strategaeth i fynd i'r afael â'r problemau hyn:** er enghraifft, risgiau penodol neu generig a ddaw o ganlyniad i natur y CNLC (e.e. risgiau gwahanol sy'n

<sup>5</sup> Yn achos Cymwysterau Cymru â'i annibyniaeth, ni fydd angen i'r mudiad ddeall y broses fonitro y tu allan i fonitro perfformiad ariannol. Fodd bynnag, bydd yn briodol i'r Uned Noddï gael gwybodaeth am gynllun busnes y mudiad er mwyn gallu llwyr ddeall cyd-destun gwariant cymorth grant Cymwysterau Cymru.

gysylltiedig â chyrrff gwahanol). Hefyd, risgiau penodol sy'n ymwneud â rheoli ariannol a nodir mewn llythyrau rheoli, patrwm o fethu cyrraedd targedau strategol, neu 'dallbwyntiau' amlwg o ran cyfathrebu a allai olygu, mewn amgylchiadau eithriadol, y bydd angen i'r Uned Noddi gymryd rôl fwy rhagweithiol gyda'r CNLC.

- **Mae cyfathrebu effeithiol yn darparu ac yn cael ei ddarparu gan:**

- **Strwythur clir ar gyfer cyfathrebu ffurfiol:** o ran y data y bydd y naill a'r llall yn elwa ohono, cynllunio gweithredol a busnes rheolaidd a'r trefniadau adrodd a monitro a ddaw yn sgil y rhain. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd noddi a chyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau o'r tîm noddi neu'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, fel y bo angen, i adolygu perfformiad a thrafod materion trawsbynciol neu faterion eraill sy'n codi.
- **Diwylliant o gyfathrebu anffurfiol a chyson ond nid ymwithiol:** mae hyn yn bwysig o ran magu hyder ac ymddiriedaeth sydd, yn ei dro, yn gallu arwain at ddidwylledd a pharodrwydd i rannu a datrys problemau yn gynnar. Dylai hyn gynnwys cyfathrebu anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau o'r Uned Noddi neu'r Dirprwy Brif Weithredwr yn ogystal â sgysiau rhwng swyddogion. Dylid ystyried digwyddiadau rhannu gwybodaeth/rhwydweithio blynyddol, a fydd yn rhoi'r cyfle i gydweithwyr polisi a chyflawni gwrdd, rhannu arferion gorau a datblygu cysylltiadau gwaith.
- **Cyfranogiad da ar lefel uwch:** er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol da a dangos ymrwymiad i'r berthynas.
- **Cyfathrebu mewnol effeithiol:** gwybod pwy i fynd ato yn Llywodraeth Cymru am gyngor ar faterion fel cyllidebu; priodoldeb; caffael a materion personél: a pharodrwydd i wneud hynny.
- **Datblygu polisi cynhwysfawr:** dylid sicrhau bod gan y CNLC lefel briodol o gyfranogiad mewn unrhyw ddatblygiad polisi<sup>6</sup>, gan sgysio a chyfathrebu'n gyson trwy gydol y broses.

- **Sefydlu presenoldeb awdurdodol, gan ddarparu:**

- **prif bwynt mynediad i'r CNLC at Lywodraeth Cymru** a gweithredu fel ffynhonnell gynghori awdurdodol (hyd yn oed os daw'r cyngor hwnnw o rywle arall). Mae'n hanfodol fod parodrwydd i fod yn gyfrifol am gyfathrebu cyngor o'r fath i'r CNLC. Rhaid deall y cyfathrebiadau rydych yn eu trosglwyddo a bod yn barod i roi cyngor.
- **herio a chraffu:** egluro bod holi cwestiynau cadarn sydd wedi'u strwythuro'n briodol i'r CNLC yn rhan hanfodol o'r swyddogaeth, er mwyn cefnogi atebolrwydd cyhoeddus, ond dylid gwneud hyn ar lefel strategol yn hytrach na

---

<sup>6</sup> Diffinnir cyfrifoldeb dros ddatblygu polisi ymhellach fel, *polisi rheoleiddio*, y bydd Cymwysterau Cymru yn gyfrifol amdano a *pholisi cymwysterau*, y bydd Cymwysterau Cymru yn gyfrifol amdano ar lefel weithredol a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano ar lefel strategol.

gweithredol er mwyn cynnal annibyniaeth Cymwysterau Cymru ac osgoi micro-reoli. Dadansoddi cynigion, lle bo'n briodol, a chyflwyno argymhellion gwybodus i drydydd partïon (e.e. Swyddogion Cyfrifyddu a Gweinidogion).

- **cyswllt â Gweinidogion:** sefydlu cytundeb gyda'r Gweinidogion o ran beth ddylai'r CNLC ei gyflawni, yna hyrwyddo ei sefyllfa'n gadarn ac yn ddidwyll.

- **Sgiliau**

- **Hyfforddiant Effeithiol:** Hyfforddiant ymsefydlu cyfatebol effeithiol a hyfforddiant noddi effeithiol penodol (ar y cyd â phersonél y CNLC lle bo'n bosibl).
- Ystyried priodoldeb: hyfforddiant desg, amnewid swyddi, secondiadau neu gysgodwaith tymor byr er mwyn cynefino ac er mwyn deall swyddogaethau a heriau.

### ATODIAD 3

## RHESTR O GANLLAWIAU A CHYFARWYDDIADAU CORFFORAETHOL LLYWODRAETH GYFAN AR GYFER CYMWYSTERAU CYMRU

#### Canllawiau corfforaethol Llywodraeth gyfan

- [‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’](#) Llywodraeth Cymru
- Memorandwm Llywodraeth Cymru [‘Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Corff a Noddyd gan Lywodraeth Cymru \(CNLC\)’](#)
- Memorandwm Swyddog Cyfuno Trysorlys EM
- Cyfeiriad cyfrifon Cymwysterau Cymru
- [Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Canolog: Cod Arferion Da](#)
- Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, Trysorlys EM
- ‘Rheoli’r Risg o Dwyll’ y Trysorlys
- ‘Cyrrff Cyhoeddus Anadrannol – Adroddiadau Blynyddol a Chanllaw ar gyfer Cyfrifon’, Trysorlys EM
- ‘Bancio a Rheoli Arian’ Trysorlys EM (wedi’i gyhoeddi fel Atodiad 5.6 o [‘Rheoli Arian Cyhoeddus’](#))
- [‘Rheoleidd-dra, Priodoldeb a Gwerth am Arian’](#) Trysorlys EM
- [‘Llyfr Gwyrdd – Arfarnu a Gwerthuso mewn Llywodraeth Ganolog’](#) Trysorlys EM
- [‘Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg’](#) Trysorlys EM
- [‘Llyfr Magenta – Canllaw ar gyfer Gwerthuso’](#) Trysorlys EM
- [‘Cod Ymddygiad Aelodau Bwrdd Cyrrff Cyhoeddus’](#) Swyddfa’r Cabinet

- [‘Canllawiau ar gyfer Arferion Da wrth Werthuso’](#) Cymdeithas Werthuso'r DU
- [‘Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol’](#) Awdurdod Ystadegau'r DU
- Strategaeth y Comisiwn Iechyd a Diogelwch [‘Synnwyr Cyffredin Diogelwch Cyffredin’](#)

### **Canllawiau sy'n ymwneud yn benodol â Chymwysterau Cymru:**

- Y ddogfen hon
- Llythyr dyrannu grant blynyddol y Gweinidog i Gymwysterau Cymru
- llythyrau ‘Annwyl Prif Swyddog Gweithredol’ sydd ar gael
- llythyrau ‘Annwyl Swyddog Cyfrifyddu’ sydd ar gael
- llythyrau ‘Annwyl Swyddog Cyfuno’ sydd ar gael
- Llythyrau Rheoli gan archwilwyr allanol
- cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru
- Argymhellion a gyflwynwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgorau Seneddol eraill neu awdurdod Seneddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r rhai sy'n berthnasol i Gymwysterau Cymru.

### **Ymddygiad cyffredinol corff cyhoeddus yng Nghymru**

Yn ogystal â hyn, bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau, wrth gyflawni ei fusnes, ymysg pethau eraill, ei fod yn:

- cydymffurfio â thelerau'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac yn ceisio gweithio tuag at gyflawni Mesurau'r Iaith Gymraeg cyn iddo orfod gwneud hynny'n gyfreithiol,
- cyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n cyd-fynd â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel y nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir o bryd i'w gilydd,
- cyflawni ei swyddogaethau gan ddilyn yr egwyddor y dylai pob person gael cyfle cyfartal,



- mabwysiadu a chynnal cynllun, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth,
- cyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n cyd-fynd â 'dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ar egwyddor arweiniol o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol' a'i fod yn gweithio tuag at fodloni gofynion y Ddeddf Dyfodol Tecach cyn y bydd yn ofynnol iddo wneud hynny'n gyfreithiol.
- cyflawni ei swyddogaethau gan ystyried y Ddeddf Cydraddoldeb,
- dilyn ffordd ddidwyll o weithio, fel y nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad at Wybodaeth,
- rhoi ystyriaeth ddyledus i ['Cod Ymarfer i Weinidogion ar Benodi Cyrff Cyhoeddus'](#), y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
- sicrhau y gweithredir ei gaffaeliadau drwy roi ystyriaeth i'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru a'r canllawiau sydd ar gael trwy'r [Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru](#).

Bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi adroddiadau cryno neu gofnodion ei gyfarfodydd pan fo'n ymarferol ac yn briodol.

Rhaid i Gymwysterau Cymru gydymffurfio â phob dyletswydd statudol berthnasol a pholisi gan Lywodraeth y DU sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles fel y maent yn berthnasol i'w swyddogaethau, prosiectau, rhaglennu a gweithgareddau. Yn ogystal â hyn, bydd angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bod unrhyw sefydliad y bydd yn ei ariannu, ac unrhyw gontractwr ac is-gontractwr o fewn y sefydliadau hynny, yn cydymffurfio yn yr un modd.

**ATODIAD 4**  
**CRYNODEB O OFYNIION CYMERADWYO A CHYFYNGIADAU**  
**DIRPRWYO LLYWODRAETH CYMRU**

<b>Pwnc</b>	<b>Cyfyngiad Dirprwyo</b>
Penodi Prif Weithredwr	Rhaid i'r Gweinidog gymeradwyo amodau a thelerau'r penodiad
Taliadau diswyddo staff ac amodau a thelerau	Rhaid i'r Gweinidog gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r amodau a thelerau cyffredinol
Trefniadau pensiwn a thalu taliadau diswyddo neu iawndal	Cymeradwyaeth gan y Gweinidog
Cynllun Corfforaethol a Gweithredol	Cyflwyno at ddibenion gwybodaeth er mwyn cefnogi rhagolygon cyllideb Cymwysterau Cymru.
Is-gwmnïau a chyd-fentrau	Cymeradwyaeth gan y Gweinidog ym mhob achos
Trosglwyddo arian y tu allan i'r cyfyngiadau a nodwyd	Cymeradwyaeth gan yr Uned Noddi ym mhob achos
Cynigion newydd, cynhennus neu gynigion sydd ag ôl-ffeithiau	Cymeradwyaeth gan yr Uned Noddi ym mhob achos
Benthyg	Cymeradwyaeth gan y Gweinidog os yw'n fwy na gwerth y bil cyflog misol
Benthyca	Cymeradwyaeth gan y Gweinidog
Gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau	Cymeradwyaeth gan y Gweinidog
Prosiectau cyfalaf	£50,000 y prosiect
Prosiectau TG	£100,000 y prosiect
Contractau ymgynghoriaeth	<i>Yn unol â phrosesau Cymwysterau Cymru</i>
Gwyradau tendr sengl	<i>Yn unol â phrosesau Cymwysterau Cymru</i>
Rhoddion, lletygarwch, gwobrwyon ac ati	<i>Yn unol â phrosesau Cymwysterau Cymru</i>
Noddi	Cymeradwyaeth gan yr Uned Noddi os yw'n fwy na £10,000 y flwyddyn

Colledion a thaliadau arbennig	Cymeradwyaeth gan yr Uned Noddi os yw'n uwch na £50,000 y flwyddyn
Cadw derbynebaw dros ben ac yn uwch na'r cyfyngiad a nodir yn y llythyr dyrannu grant	Cymeradwyaeth gan yr uned noddi ym mhob achos
Cario drosodd	Mewn blwyddyn - 4% o gyfanswm y gyllideb gros flynyddol Diwedd blwyddyn – 2% o gyfanswm y gyllideb gros flynyddol
Grantiau	Cymeradwyaeth gan yr Uned Noddi os yw'n fwy na <b>£550,000</b>
Gwariant Cyffredinol	Yn unol â'r cyfyngiadau ar wariant a ddisgrifiwyd o fewn corff y Ddogfen Fframwaith.

Yn ymarferol, bydd yr Uned Noddi yn perfformio llawer o'r swyddogaethau cymeradwyo ar ran y Gweinidog, yn ôl cynllun dirprwyo y cytunwyd arno o fewn yr isadran noddi.